

GROW YOUR OWN POTATOES



Gwers 2: Tyfu Tatws

Bydd y plant yn:

- Dysgu sut i dyfu eu tatws eu hunain.

Gallwch ddefnyddio'r sesiwn hon i'ch helpu gyda'r gystadleuaeth 'Grow Your Own Potatoes'.

Bydd angen ichi baratoi'r tatws hadu ychydig wythnosau ymlaen llaw i wneud y plannu yn ystod y sesiwn hon. Ceir gwybodaeth yn **nhaflen ffeithiau 1 Plannu fy nhatws**, **taflen ffeithiau 2 Tyfu fy nhatws** a **thaflen ffeithiau 3 Cynghorion tyfu**

Gall y plant weithio mewn grwpiau o 4-5 a bydd angen set o'r eitemau canlynol ar gyfer bob grŵp

- Tatws hadu – defnyddiwch y rhai a ddarperir gan y Cyngor Tatws os ydych chi'n cystadlu yn y gystadleuaeth 'Grow Your Own Potatoes'.
- 1 x bocs wyau
- 1 x bwced (sydd â diamedr o lai na 50cm)
a morthwyl a hoelen (i wneud tyllau yng ngwaelod y fwced) – **AT DDEFNYDD OEDOLYN YN UNIG neu** eu tyfu mewn gwelyau ar dir eich ysgol
neu os ydych chi am gystadlu, defnyddiwch y bagiau tyfu a ddarperir gan y Cyngor Tatws
- Compost neu bridd

Eitemau Opsiynol:

- Trywelion
- Menig plastig – rhaid golchi dwylo'n drwyadl ar ôl trafod y tatws a'r pridd os na ddefnyddir menig
- Can(iau) dyfrio

Cyflwyniad

Esboniwch i'r plant y byddan nhw'n plannu taten.

Gofynnwch i'r plant:

- Pa offer fydd ei angen arnom i blannu taten? Gwnewch restr.
- Allwch chi esbonio beth yn union fydd angen inni ei wneud, cam wrth gam?

Edrychwch ar **daflen ffeithiau 2 Tyfu fy nhatws** a dangoswch y pytiau fideo i'r plant o datws yn cael eu plannu.

Trafodwch beth sy'n digwydd a gofynnwch i'r plant sut allan' nhw wneud hyn wrth blannu'u tatws nhw.

Crynowch beth sydd ei angen ar datws i dyfu'n dda.

Sefydlwch y ffaith mai hedyn yw'r daten – cloronen.



GROW YOUR OWN POTATOES



Gwers 2: Tyfu Tatws parhad

Tasg

Rhannwch y plant yn grwpiau o 4 neu 5.

Cyn ichi ddechrau, sefydlwch pwy fydd yn gwneud pa ran o'r plannu.

Esboniwch sut fyddan' nhw'n defnyddio'r offer i blannu'u tatws.

Bydd hyn yn amrywio, yn dibynnu a oes gennych chi ardd ysgol i dyfu'r tatws ynddi, neu a fyddwch chi'n eu tyfu nhw mewn bwcedi.

Cofiwch ddefnyddio'r bagiau tyfu a ddarperir os ydych chi am gystadlu yn y gystadleuaeth 'Grow Your Own Potatoes'. **Rhybudd:** os ydych chi'n defnyddio bwcedi neu fagiau tyfu, byddant yn eitha' trwm pan fyddan nhw'n llawn o bridd. Gosodwch nhw yn eu lle cyn eu llenwi. Gadewch i'r plant blannu eu tatws eu hunain.

5-7 Oed

Taflen waith 2 Sut mae fy nhaten yn tyfu – sy'n golygu gwneud braslun o sut mae'r planhigyn tatws yn edrych bob tair wythnos. Ewch drwy'r daflen waith gyda'r plant gan esbonio y byddan nhw'n llenwi'r daflen bob tair wythnos.

Trafodwch beth fyddan nhw'n gwneud llun ohono dros yr wythnosau nesa.

Mae'n bosib y byddwch chi am iddyn nhw wneud braslun o'r daten ar ôl ei phlannu, neu efallai y byddwch am aros am dair wythnos cyn dechrau.

Gyda phlant ifanc iawn neu rai sydd angen mwy o gymorth, gallech wneud copi mawr o'r daflen waith a chael y dosbarth cyfan i'w llenwi gyda'i gilydd.

7-11 Oed

Ewch ati i greu bwrdd stori/dyddiadur i gofnodi sut mae'r daten yn tyfu at adegau rheolaidd.

Gallai'r plant ddefnyddio camera digidol neu gamera fideo i gofnodi'r cynnydd.

Crynodeb

Siaradwch â'r plant am yr hyn fydd angen iddyn nhw'i wneud i ofalu am eu tatws.

Anogwch nhw i benderfynu sut fyddan nhw'n sicrhau bod eu tatws yn cael y gofal iawn, e.e. rota dyfrio

Gallech hefyd ...

- Gael y plant i fesur uchder eu tatws ar gyfnodau rheolaidd dros yr wythnosau nesa a chreu graff.
- Gofyn i'r plant ysgrifennu set o gyfarwyddiadau sy'n dweud wrth rywun sut i dyfu taten.
- Tyfu math gwahanol o blanhigyn sy'n darparu bwyd, e.e. ffa, berwr. Cymharwch sut mae'r planhigyn hwn â'ch planhigyn tatws chi'n tyfu. Defnyddiwch daflen waith 3 Tatws a phlanhigion eraill i gymharu'r ddau blanhigyn.
- Edrychwch ar y 'Potato Cam' ar wefan GYOP i weld tatws eraill yn tyfu.

